# Ysgoloriaeth PhD – Datblygu triniaeth arloesol ar gyfer clefyd Krabbe yn Y Sefydliad Darganfod Meddyginiaethau

Edrych am gyfle i ddefnyddio gradd mewn bio-wyddorau ar gyfer achos da?

Mae clefyd Krabbe yn glefyd genetig prin sy'n effeithio ar tua 1 o bob 100,000 o fabanod. Mae'r clefyd yn gwaethygu'n gyflym, ac yn aml yn achosi marwolaeth pan fydd y claf yn 2-4 oed. Fel arfer, nid oes modd trin y plant anlwcus hyn. Mae yna gyfle euraidd i ni wneud gwahaniaeth drwy gychwyn prosiectau ar gyfer meddyginiaethau newydd wrth ddatblygu dulliau mewn crisialograffaeth a bioffiseg.

Mae gennym arbenigwyr yn y maes ac offer o'r radd flaenaf yn ein labordai newydd. Rydyn ni'n chwilio am ymgeiswyr brwdfrydig i ymuno a'r tîm, sydd â diddordeb cryf mewn crisialograffaeth proteinau, bioleg y celloedd a darganfod triniaethau newydd ar gyfer clefydau prin. Gall yr ymgeisydd ddod o gefndir gradd cemeg, biocemeg, gwyddorau bywyd neu fiofeddygol, meddygaeth, fferylliaeth neu bwnc tebyg.

Mae'r ysgoloriaeth hon yn cael ei hariannu'n llawn gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Sefydliad Darganfod Meddyginiaethau. Mae'r ddoethuriaeth yn un llawn-amser am dair blynedd.

**Dyddiad cau: 18/8/2023** *[cyfweliadau 25-29/8/2023]*

**Goruchwylwyr**
Yr Athro Simon Ward; Dr Helen Waller-Evans; Dr Ben Bax

*Am ymholiadau, e-bostiwch*: **WardS10@cardiff.ac.uk**; **Waller-EvansH@cardiff.ac.uk**; **BaxB@cardiff.ac.uk**; **medicinesdiscovery@cardiff.ac.uk**

Cardiff University | Prifysgol Caerdydd — Medicines Discovery Institute | Y Sefydliad Darganfod Meddyginiaethau

Coleg Cymraeg Cenedlaethol